**CITY OF CARDIFF COUNCIL**
CYNGOR DINAS CAERDYDD

MINUTES

---

CABINET MEETING: DYDD IAU, 14 GORFFENNAF 2016

---

| | |
|---|---|
| Cabinet Members Present: | Councillor Phil Bale (Chair)<br>Councillor Sue Lent<br>Councillor Peter Bradbury<br>Councillor Dan De'Ath<br>Councillor Bob Derbyshire<br>Councillor Graham Hinchey<br>Councillor Susan Elsmore<br>Councillor Sarah Merry<br>Councillor Ramesh Patel |
| Observers: | Councillor Dianne Rees<br>Councillor Neil McEvoy<br>Councillor Judith Woodman |
| Officers: | Paul Orders, Chief Executive<br>Christine Salter, Section 151 Officer<br>Marie Rosenthal, Monitoring Officer<br>Joanne Watkins, Cabinet Office |
| Apologies: | |

## 13 COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2016

PENDERFYNWYD: y caiff cofnodion 16 Mehefin 2016 eu cymeradwyo.

## 14 DIWEDDARIAD AR FARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Derbyniodd y cabinet ddiweddariad ar gynnydd terfynu'r cytundeb Bargen Ddinesig. Gwnaed cynnydd o ran sefydlu trefniadau llywodraethu a chefnogi ar gyfer terfynu'r fargen. Nodwyd bod Rheolwr Rhaglen wedi'i benodi. Caiff adroddiad yn y dyfodol ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn amlinellu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu rhanbarthol.

PENDERFYNWYD: y nodir y cynnydd o ran terfynu'r cytundeb Bargen Ddinesig.

## 15 GOBLYGIADAU REFFERENDWM YR UE AR GAERDYDD

*Mae'r Arweinydd fel Cadeirydd wedi dyfarnu, oherwydd amgylchiadau arbennig, y dylid ystyried yr eitem hon yn y cyfarfod hwn ar frys. Er y cafodd yr eitem hon ei chyhoeddi ar yr Agenda, ni chafodd yr adroddiad ei therfynu tan ddydd Mercher, oherwydd datblygiadau parhaus, gan gynnwys cyfarfodydd a gynhaliwyd yr wythnos hon, yn cynnwys y Cyngor. Mae angen i'r Cyngor asesu'r goblygiadau posibl i Gaerdydd fel blaenoriaeth ac i ddarparu datganiad sefyllfa o ran yr hyn sy'n sefyllfa sy'n esblygu'n gyflym.*

*O ganlyniad, ystyrir bod yr eitem hon yn un frys o ran cael penderfyniad yn y cyfarfod hwn. Y rheswm dros y brys yw'r angen i sicrhau cytundeb y Cabinet i Gyngor Dinas Caerdydd ddechrau ar unwaith ar y gwaith trwy Dinasoedd Craidd y DU a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud sylwadau i Lywodraeth y DU ar faterion allweddol i'w hystyried fel rhan o drafodaethau'r dyfodol i adael yr UE.*

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn amlinellu'r goblygiadau ar gyfer Caerdydd mewn perthynas â chanlyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd a'r ymateb arfaethedig i'r goblygiadau hynny er mwyn ail-gadarnhau statws Caerdydd fel dinas ryngwladol a gweledigaeth y weinyddiaeth i sicrhau mai Caerdydd yw'r brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop.

PENDERFYNWYD: y caiff

1. cynnwys yr adroddiad ei nodi;

2. statws Caerdydd fel dinas ryngwladol a gweledigaeth y weinyddiaeth i sicrhau mai Caerdydd yw'r brifddinas orau i fyw ynddi yn Ewrop ei ail-gadarnhau.

3. gwaith trwy Dinasoedd Craidd y DU a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud sylwadau i Lywodraeth y DU ar faterion allweddol i'w hystyried fel rhan o drafodaethau'r dyfodol i adael yr UE ei gytuno;

4. cytundeb ei wneud i gryfhau mecanweithiau ymgysylltiad cymunedol yng Nghaerdydd trwy weithio gyda phartneriaid trwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd; ac y caiff

5. parhad aelodaeth Caerdydd o rwydwaith yr Ewro-ddinasoedd ei gymeradwyo.

## 16 CYNLLUN RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL

***Datganodd yr Arweinydd ddiddordeb personol ond heb fod yn niweidiol yn y mater hwn gan fod yn Aelod o Gyfeillion yr Hen Lyfrgell.***

***Datganodd y Cynghorydd Bradbury ddiddordeb personol ond heb fod yn niweidiol yn y mater hwn gan ei fod yn Aelod o ymddiriedolaeth Chwaraeon Caerau a Threlái sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau cymunedol (CAT); mae hefyd yn ymddiriedolwr yn Amgueddfa Stori Caerdydd y cyfeirir ati yn yr adroddiad.***

***Datganodd Y Cynghorydd Hinchey ddiddordeb personol ond heb fod yn niweidiol yn y mater hwn gan ei fod yn Aelod o Gyfeillion Gerddi Llwynfedw sy'n ymwneud â CAT.***

Ystyriodd y Cabinet adroddiad sy'n rhestru'r strategaeth ar gyfer rheoli 441 o eiddo gweithredol y Cyngor o fewn ei ystâd. Mae'r cynllun yn rhestru egwyddorion allweddol rhesymoli, moderneiddio a chydweithio i weithio tuag ag ystâd fodern sy'n llai, yn fwy effeithlon ac yn addas at y diben. Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn gosod targedau sy'n cynnwys lleihau ôl-groniad cynnal a chadw, lleihau costau rhedeg, a chynhyrchu derbynebau cyfalaf wrth sicrhau y bodlonir anghenion gweithredol y Cyngor.

PENDERFYNWYD: y caiff Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2016/17 ei gymeradwyo.

## 17 STRATEGAETH CYLLIDEB 2017/ 18 A'R TYMOR CANOLIG

Ystyriodd y Cabinet strategaeth y gyllideb ar gyfer 2017/18, a oedd yn amlinellu'r strategaeth ariannol yr oedd ei hangen er mwyn mynd i'r afael â llymder parhaus heriau ariannol i'r Cyngor yn y tymor canolig ac yn gosod amserlen y gyllideb.

PENDERFYNWYD: y caiff

(1) y fframwaith ar gyfer y targedau arbedion y mae'r adroddiad Strategaeth Gyllidebol yn seiliedig arnynt, gan gynnwys y defnydd o ddull a dargedwyd o ran bodloni'r Gofyniad Lleihau'r Gyllideb yn 2017/18 ac yn ystod cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei gytuno.

(2) cyfarwyddiaethau weithio gyda'r Aelod Cabinet Portffolio perthnasol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol a'r Aelod Cabinet dros Adnoddau a Rheoli Perfformiad er mwyn nodi arbedion posibl er mwyn cynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb o £24.328 miliwn ar gyfer 2017/18 a £75.297 yn ystod cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

(3) cyrff perthnasol sy'n codi archebiannau ac ardollau ar y Cyngor eu cysylltu'n ffurfiol er mwyn gofyn i ostyngiadau o ran cyllid gael eu bwydo i mewn i'r setliadau hyn a ddylai fod yn unol â'r rheiny y disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru'n eu gorfodi mewn perthynas â chyllid yr awdurdod lleol.

(4) awdurdod ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i nodi gofyniad amgen o ran bwlch yn y gyllideb pan fydd Llywodraeth Cymru'n darparu rhagor o eglurhad mewn perthynas â chyllid.

(5) Awdurdod ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad i ddiwygio'r Strategaeth Gyllidebol, pan fydd y cynigion am arbedion cyllidebol wedi'u hadolygu, os nad yw'r diwygiad hwn yn sylweddol wahanol i'r egwyddorion gwaelodol. Byddai unrhyw ofyniad i fod yn sylweddol wahanol i'r egwyddorion yn gofyn am Adroddiad Strategaeth Gyllidebol i'r Cabinet.

(6) mae’r Cyngor yn ceisio Datganiadau o Ddiddordeb gan swyddogion mewn perthynas â'r cynllun dileu swyddi gwirfoddol.

(7) Cytunir bod y Cyngor yn cael argymhelliad i gytuno y caiff y Fframwaith Amserlen Cyllidebol a osodir yn Atodlen 2 ei fabwysiadu ac y caiff y gwaith a amlinellir ei symud ymlaen gyda'r nod o lywio paratoadau ar gyfer y gyllideb.

(8) Cytunir y bydd proses dau gam mewn perthynas ag ymgynghoriad ar gynigion 2017/18. Bydd hyn yn dechrau gydag Arolwg Holi Caerdydd yn cynnwys adran ar themâu cyllidebol cyffredinol, wedi’u dilyn gan ymgynghoriad mwy manwl ar gynigion 2017/18 yn hwyrach yn yr Hydref, pan fydd rhagor o eglurder ar y sefyllfa o ran cyllid 2017/18.

## 18 CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: DARPARIAETH ARBENIGOL AR GYFER DISGYBLION CYNRADD AG ANAWSTERAU LLEFERYDD AC IAITH, A DISGYBLION AG ANAWSTERAU YMDDYGIADOL, EMOSIYNOL A CHYMDEITHASOL

Derbyniodd y Cabinet adroddiad sy’n amlinellu ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion cynradd ag anawsterau lleferydd ac Iaith, a disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol.

Nodwyd bod canlyniadau’r ymgynghoriad yn nodi pryderon sylweddol ar gyfer rhanddeiliaid a bod angen gwaith ychwanegol er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliad yn well.

PENDERFYNWYD; y caiff Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, mewn ymgynghoriad â’r Aelod Cabinet dros Addysg ei awdurdodi i;

1. Gynnal adolygiad arall o gymorth iaith a lleferydd yng Nghaerdydd, gyda’r nod o ddod â chynigion diwygiedig gerbron;

2. Ymgysylltu mwy ag ysgolion a rhanddeiliaid eraill mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar ar gyfer plant sydd ag anghenion ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol;

3. Gweithio gyda chyrff llywodraethu Ysgolion Meadowbank ac Allensbank i sicrhau y gall anghenion plant sydd ag anghenion iaith a lleferydd a gafodd eu rhoi yn yr ysgolion barhau i gael eu bodloni'n effeithiol, hyd nes daw unrhyw gynigion diwygiedig.

## 19 PROTOCOL CERFLUN A CHOFADAIL CAERDYDD

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn rhestru cynigion ar gyfer protocol Cerflun a Chofadail ar gyfer Caerdydd. Mae dros 200 darn o waith celf cyhoeddus yng Nghaerdydd, sy’n cyfrannu at dreftadaeth bensaernïol a diwylliannol y ddinas.

Mae'r adroddiad yn disgrifio nodyn arweiniad a phroses gwneud penderfyniadau ar gyfer pennu derbynioldeb ac addasrwydd cerfluniau a chofadeiladau yng Nghaerdydd.

PENDERFYNWYD; bod

1. cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

2. Protocol Cerflun a Chofadeiladau Caerdydd fel nodyn arweiniad ar gyfer asesu cynigion i osod cerfluniau a chofadeiladau yng Nghaerdydd yn cael ei gymeradwyo.

3. y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer pennu derbynioldeb ac addasrwydd cychwynnol cynigion am gerfluniau a chofadeiladau yn cael ei chytuno.